

YSGOL UWCHRADD TYWYN

Pennaeth/Head teacher: Mrs Helen Lewis



Polisi cloi mewn argyfwng

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori pob ysgol i roi trefniadau ar waith ar gyfer cloi mewn argyfwng i amddiffyn disgyblion a staff yn yr adegau prin iawn y bydd angen cau'r ysgol fel nad yw'n bosib i unrhyw un gael mynediad o'r tu allan. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion, staff ac ymwelwyr yn ddiogel mewn sefyllfaoedd lle mae perygl ar dir yr ysgol neu yng nghyffiniau'r ysgol.

Dylai gweithdrefnau Cloi mewn Argyfwng gael eu hystyried yn ymateb synhwyrol a chymesur i unrhyw ddigwyddiad allanol neu fewnol sydd â'r potensial i beri bygythiad i ddiogelwch staff a myfyrwyr yr ysgol. Nod y gweithdrefnau yw amharu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd dysgu, wrth sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion a'r staff. Gellid bod angen gweithredu gweithdrefnau Cloi mewn Argyfwng ar gyfer nifer o sefyllfaoedd, ond gallai rhai o'r rhai mwyaf nodweddiadol fod:

- yn cael gwybod am ddigwyddiad/aflonyddwch sifil yn y gymuned leol (gyda'r potensial i beri risg i staff a disgyblion yn yr ysgol);
- Rhywun heb ganiatâd ar safle'r ysgol (gyda'r potensial i beri risg i staff a disgyblion);
- Rhybudd yn cael ei dderbyn ynglŷn â risg yn lleol, o lygredd aer (pluen fwg, cwmwl nwy ac ati);
- Tân mawr yng nghyffiniau'r ysgol;
- Ci peryglus yn crwydro'n rhydd gerllaw'r ysgol.

Mewn achos cloi mewn argyfwng bydd cloch yr ysgol yn cael ei seinio 3 gwaith. Bydd gofyn i staff a disgyblion fynd i'r ystafell ddosbarth agosaf neu aros ynddi a fydd wedyn os yn bosibl yn cael eu cloi. Bydd ffenestri ar gau a bydd ffonau symudol athrawon yn cael eu newid i'r modd tawel. Os bydd y digwyddiad cloi mewn argyfwng yn wir, byddwn yn ceisio ein gorau i gyfleu unrhyw wybodaeth i rieni cyn gynted â phosibl trwy negeseuon testun. Mae'r ysgol yn deall pryder rhieni am les eu plant a bydd yn sicrhau fod popeth y gellir ei wneud yn cael ei weithredu i sicrhau diogelwch eich plant. Fodd bynnag, bydd angen i rieni barchu, os bydd yr ysgol mewn sefyllfa cloi mewn argyfwng, bydd y switsfwrdd a'r mynedfeydd heb staff, bydd drysau allanol wedi'u cloi ac ni chaniateir neb i gael mynediad i mewn nac allan o'r ysgol. Rydym hefyd yn cynghori rhieni'n gryf i beidio â dod yn agos at yr ysgol.

Yn yr un modd â driliau tân mae'n ofynnol i ni brofi'r weithdrefn yn flynyddol. Bydd yr ymarfer hwn yn caniatáu i ddisgyblion ddod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau gan eu bod yn wahanol i'n gweithdrefnau gwacáu tân. Byddwn yn cynnal yr ymarfer yn ystod yr hanner tymor hwn. Bydd y disgyblion yn cael gwybod am y diwrnod ond nid yr amser. Fel rhieni neu eu gwarcheidwaid gofynnwn ichi dawelu meddwl eich plant gan gadarnhau nad oes unrhyw beth i boeni amdano a dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau at Mr Phillips.